Rhif cwmni / company number: 14227941

**Cyfarfod Bwrdd | Board meeting**
**28/04/26 – Ysgol Dyffryn Conwy**
**09:30-13:30**

**Cofnodion a chamau gweithredu | Minutes and actions**

**Yn bresennol | In attendance:**

**Adnodd:** Gethin Davies, Cadeirydd | Chair (GD); Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC Chair (MG); Natalie Jones (NJ); Huw Jones (HJ); Sioned Roberts (SR); Lesley Bush (LB); Nicola Wood (NW)
Emyr George, Prif Weithredwr | Chief Executive (EG); Kirsty Davies, Cyfarwyddwr Gwasanethau Corfforaethol | Director of Corporate Services (KD); Lleucu Siencyn, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni | Director of Strategy and Delivery (LIS); Branwen Edwards (BE); Ali Hanbury, Head of Strategic Engagement and Communications

**Partneriaid | Partners:** Nia Bennett, Effectus HR (NB) – eitem 10 yn unig | item 10 only

| **Eitem ar yr agenda** ***Agenda item*** | **Crynodeb o'r drafodaeth a'r pwyntiau gweithredu** | **Summary of discussion and action points** |
|---|---|---|
| 1.Croeso ac ymddiheuriadau \| Welcome and apologies | Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru. | The Chair welcomed all attendees to the meeting.<br><br>Apologies had been received from the WG Partnership Team. |
| 2. Datgan buddiannau \| Declaration of interest | Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'i ddatgan cyn y cyfarfod. | No conflict of interests had been declared in advance of the meeting. |
| 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf \| Minutes of previous meeting | Cytunodd y Bwrdd fod y cofnodion yn gofnod cywir a gwir o'r trafodaethau.<br><br>Adolygodd y Bwrdd y camau gweithredu. | The Board agreed that the minutes were a true and accurate record of discussions.<br><br>The actions were reviewed by the Board. |

| | | |
|---|---|---|
| 4. Cwricwlwm i Gymru: Cynllunio Cwricwlwm yn yr Ysgol Uwchradd<br><br>Curriculum for Wales: Secondary school curriculum design | Croesawyd Eleri Gwyn, y Dirprwy Bennaeth, i'r cyfarfod. Rhoddodd hi gyflwyniad manwl i'r Bwrdd am y broses o ddylunio'r cwricwlwm yn Ysgol Dyffryn Conwy.<br><br>Soniwyd hefyd am yr heriau sy'n wynebu ymarferwyr, ac yn enwedig yr amser ychwanegol sydd ei angen i ddeall gofynion y cymwysterau TGAU newydd a'r asesiadau parhaus o gynnydd dysgwyr. Dywedodd Eleri Gwyn fod ymarferwyr wedi rhoi croeso cynnes i adnoddau sydd wedi cael eu comisiynu gan Adnodd, ac mae'r rheini bellach yn cael eu defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu'r cymwysterau TGAU newydd.<br><br>Cafodd aelodau'r Bwrdd gyfle i bori yn llyfrau ysgol dysgwyr a gweld enghreifftiau o'r dulliau a'r templedi asesu y mae'r ysgol yn eu defnyddio. | Eleri Gwyn, Deputy Headteacher was welcomed to the meeting and gave an in-depth presentation to the Board about the curriculum design process at Ysgol Dyffryn Conwy.<br><br>The challenges facing practitioners were also mentioned, in particular the additional time required to embrace the requirements of the new GCSEs and the continuous assessments of learners' progress. Eleri Gwyn noted how resources commissioned by Adnodd have been warmly welcomed by practitioners and are now being used to support the teaching and learning of the new GCSEs.<br><br>The Board members had the opportunity to browse learners' schoolbooks to see working examples of assessment templates and methods used at the school. |
| 5. Diweddariad gan y Cadeirydd<br>Update from the Chair | Diolchodd GD i'r aelodau a oedd wedi cymryd rhan yn y sesiwn llesiant o dan arweiniad Pethau Bychain ar 27 Ebrill.<br><br>Dywedodd GD fod rhai aelodau wedi cyfrannu at waith ymchwil cwmni ARAD i fapio effaith crychdonnau. | GD thanked members who had participated in the well-being session led by Pethau Bychain on 27 April.<br><br>GD noted that some members had engaged with ARAD Research to discuss the ripple effect mapping work.<br><br>**Action: Present the findings of the ripple effect mapping to the Board in July.** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cam gweithredu: Cyflwyno canfyddiadau'r gwaith mapio effaith crychdonnau i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.**<br><br>Bydd cyfarfodydd adolygu perfformiad aelodau'r bwrdd yn cael eu cynnal ym mis Mai, ar ôl adolygiad perfformiad y Cadeirydd gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth.<br><br>Roedd GD ac EG wedi cyfarfod ym mis Mawrth ar gyfer sesiwn gynllunio lle trafodwyd amcanion y Prif Weithredwr.<br><br>Bu GD mewn cyfarfod o Gadeiryddion Cyrff Cyhoeddus, ac roedd hynny wedi rhoi cyfle i drafod:<br>• Archwilio Cymru a ffioedd<br>• Seiberddiogelwch<br>• Etholiad y Senedd<br>• Y broses ar gyfer gwneud penodiadau cyhoeddus<br><br>Dywedodd GD fod y staff a'r aelodau a oedd yn bresennol wedi mwynhau'r hyfforddiant am ddeallusrwydd artiffisial (AI) a roddwyd gan Brifysgol Caerdydd ym mis Chwefror. | Board member performance review meetings will be held in May, following the Chair's performance review with WG in March.<br><br>GD and EG had met in March for a planning session during which the Chief Executive's objectives were discussed.<br><br>GD attended a Public Bodies' Chair's meeting, which provided an opportunity to discuss:<br>• Audit Wales and fees<br>• Cybersecurity<br>• Senedd Election<br>• Public appointments process<br><br>GD noted that the AI training delivered by Cardiff University in February had been well received by staff and members who were able to attend. |
| 6. Diweddariad gan Gadeirydd ARAC a'r | Roedd y Pwyllgor wedi cyfarfod ar 15 Ebrill. | The Committee had met on 15 April. |

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp Cynghori ar Adnoddau<br><br>Update by Chair of ARAC and the Resources Advisory Group | <u>Arolwg o Effeithiolrwydd y Pwyllgor</u><br>Mae Arolwg y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) 2025-26 yn dangos cryn hyder yn effeithiolrwydd cyffredinol y Pwyllgor. Mae'r arolwg yn tynnu sylw at risgiau sy'n gysylltiedig ag olyniaeth a fydd yn berthnasol cyn hir, ac at yr angen i roi hyfforddiant gwell i aelodau newydd a darpar aelodau i sicrhau bod y pwyllgor mewn sefyllfa gadarn. Efallai hefyd y bydd y lefel gymharol isel o gydnabyddiaeth ariannol a gynigir yn effeithio ar y broses o recriwtio aelodau i ARAC.<br><br><u>Archwilio mewnol</u><br>Cytunodd y Pwyllgor ar gynllun archwilio 2026-27. Bydd tri archwiliad yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn: dau archwiliad sicrwydd yn edrych ar y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r trefniadau rheoli ariannol, ac un archwiliad ymgynghorol yn edrych ar waith ymgysylltu a chyfathrebu.<br><br><u>Adroddiad archwilio rheoli contractau</u><br>Roedd yr archwiliad yn rhoi 'sicrwydd rhesymol'. Yn gyffredinol, dywedwyd bod y gwaith rheoli contractau yn cael ei wneud yn dda, a bydd y sylwadau yn yr adroddiad yn rhoi cyfle i gryfhau'r arferion hyn.<br><br><u>Rheoli risgiau</u> | <u>Committee Effectiveness survey</u><br>The ARAC Survey 2025-26 which indicates strong confidence in the Committee's overall effectiveness. The survey highlighted upcoming succession risks and the need for enhanced training for new and prospective members to ensure resilience. The relatively low level of remuneration offered may also impact recruitment to ARAC roles.<br><br><u>Internal audit</u><br>The audit plan 2026-27 was agreed by the Committee. Three audits will be conducted within the year: two assurance audits looking at information governance and financial controls and one advisory audit to support the engagement and communications function.<br><br><u>Contract management audit report</u><br>The audit provided 'reasonable assurance'. It was noted that overall, contract management is functioning well and observations from the report will provide opportunities to strengthen practices.<br><br><u>Risk management</u><br>ARAC welcomed the refreshed risk register to reflect the growing maturity of the organisation; and deep dives into specific risks will be scheduled for the next meetings. |

| | | |
|---|---|---|
| | Croesawodd ARAC y gofrestr risg wedi'i diweddaru, a honno'n adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol y sefydliad. Bydd archwiliadau dwfn o risgiau penodol yn cael eu trefnu ar gyfer y cyfarfodydd nesaf. | |
| 7. Diweddariad y Prif Weithredwr<br><br>Chief Executive Update | Roedd adroddiad y Prif Weithredwr yn rhoi trosolwg o waith a chynnydd Adnodd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Ionawr. Yn dilyn cyfnod o sefydlu a thwf, dywedodd EG fod y ffocws wedi symud tuag at aeddfedrwydd sefydliadol gan fod tîm llawn o staff bellach yn ei le.<br><br>Mae'r cynllun gweithredol, ynghyd â'r gofrestr risgiau wedi'i diweddaru, yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae hyn yn dangos parodrwydd Adnodd i ymateb yn gyflym ac yn hyderus i flaenoriaethau'r llywodraeth yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai. | The Chief Executive report provided an overview of Adnodd's work and progress since the last Board meeting in January. EG noted that following a period of establishment and growth, the focus has shifted towards organisational maturity now that a full staff team is in place.<br><br>The operational plan and the refreshed risk register are aligned to clearly defined corporate objectives. These reflect Adnodd's readiness to respond swiftly and confidently to government priorities following the Senedd elections in May. |
| 8. Diweddariad y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni: Comisiynu a Strategaeth<br><br>Director of Strategy and Delivery Update: | Rhoddodd LIS ddiweddariad am y ffrydiau gwaith canlynol:<br><br><u>Gwahoddiad i dendro</u><br>Ar hyn o bryd mae'r Tîm Comisiynu yn rhoi gwybod i ymgeiswyr y lotiau canlynol am ganlyniadau'r gwaith asesu:<br>• Hawliau Dynol | LIS provided an update on the following workstreams:<br><br><u>Invitation to tender (ITT)</u><br>The Commissioning Team is currently communicating the assessment outcomes to the applicants of the following lots:<br>• Human Rights<br>• Hanes Cymru (The History of Wales) |

| | | |
|---|---|---|
| Commissioning and Strategy | • Hanes Cymru<br>• Gwrth-hiliaeth<br><br>Roedd y safonau'n uchel yn y tri lot. Roedd ymgeisydd llwyddiannus wedi'i benodi ar gyfer dau o'r tri lot. Cafodd proses gaffael y trydydd lot ei hatal am resymau technegol a bydd y lot yn cael ei ailgyhoeddi cyn bo hir. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn edrych ar wella'r broses a bydd yn ystyried cynnwys cam cyfweld fel rhan o'r asesiad.<br><br><u>Y Fframwaith Cyflenwyr</u><br>Dywedodd LIS fod y broses o asesu dros 100 o gyflenwyr wedi'i chwblhau ddydd Gwener 24 Ebrill.<br><br>O ganlyniad, mae gan Adnodd sylfaen gref o gyflenwyr sydd â'r potensial i weithio gyda ni.<br><br>Bydd y fframwaith yn cael ei ailagor yn ddiweddarach yn y flwyddyn i dargedu a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau.<br><br>Bydd nifer o gyfleoedd agored ar gael ar y Fframwaith yn ystod yr haf, a hynny'n rhan o batrwm newydd o gylchoedd comisiynu tymhorol.<br><br><u>Y Fframwaith Sicrhau Ansawdd</u> | • Anti-racism<br><br>High standards were demonstrated across the three lots. A successful applicant had been appointed in two of the three lots. The procurement of the third lot was halted for technical reasons and will shortly be re-issued. The team is currently looking at improving the process and consideration will be given to include an interview stage as part of the assessment.<br><br><u>Supplier Framework</u><br>LIS noted that the assessment process of over 100 suppliers had been completed on Friday 24 April.<br><br>The outcome provides Adnodd with a strong supplier base with the potential to work with us.<br><br>The framework will be re-opened later in the year to target and address any gaps.<br><br>A number of open opportunities will be available on the Framework during the summer which forms part of a new pattern of seasonal commissioning cycles.<br><br><u>Quality Assurance framework (QAF)</u><br>The Quality Assurance Framework (QAF) and the user experience principles will be published on Adnodd's |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a'r egwyddorion ar gyfer profiad y defnyddiwr yn cael eu cyhoeddi ar wefan Adnodd. Yn dilyn hyn, bydd ymgyrch benodol a gofalus yn cael ei chynnal, yn targedu cyflenwyr a phartneriaid, er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw am y Fframwaith Sicrhau Ansawdd.<br><br>**Cam gweithredu: Cyflwyno diweddariad am y Fframwaith Sicrhau Ansawdd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.**<br><br><u>Cyfeillion Adnodd</u><br>Dywedodd LIS fod rhai o Gyfeillion Adnodd ar y fframwaith cyflenwyr. Bydd gwaith yn cael ei wneud i dargedu'r bylchau pan fydd y fframwaith yn ailagor. | website. Following this, there will be a specific and careful campaign targeted at suppliers and partners to communicate the QAF.<br><br>**Action: Present a QAF update to the Board in July.**<br><br><u>Adnodd Friends</u><br>LIS noted that some Adnodd Friends are on the supplier framework. Identified gaps will be targeted when the framework reopens. |
| 9. Diweddariad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Director of Corporate Services update | <u>Adnoddau dynol</u><br>Trefnwyd swydd secondiad rhan-amser ym mis Ionawr i helpu'r tîm comisiynu tan y gallai'r Swyddog Comisiynu ac Ansawdd newydd ddechrau. Gan y bydd y swyddog newydd, a ddechreuodd yn y swydd ar 22 Ebrill, yn dechrau ei chyfnod o absenoldeb mamolaeth ddiwedd mis Awst 2026, bydd y secondiad yn cael ei ymestyn ar sail amser llawn i bara'r cyfnod mamolaeth.<br><br><u>Fforwm y staff</u> | <u>Human resources</u><br>A part-time secondment role was arranged in January to support the commissioning team until the newly appointed Commissioning and Quality Officer could start. Given that the new officer, who started in role on 22 April, will start maternity leave at the end of August 2026 secondment will be extended on a full-time basis to cover the maternity period.<br><br><u>Staff forum</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd KD fod fforwm y staff wedi bod yn allweddol yn y gwaith i gynnal arolwg ymhlith y staff a wnaed gan Effectus HR.<br><br>Roedd y fforwm wedi bod yn adolygu'r gyfres o bolisïau adnoddau dynol wrth i'w dyddiadau adnewyddu agosáu, ac mae'r dogfennau diweddaraf bellach wedi'u cymeradwyo gan ARAC.<br><br>Cafodd y polisi Gwyliau Blynyddol newydd ei adolygu gan y fforwm a'i gymeradwyo gan ARAC ym mis Ebrill.<br><br><u>Dyfarniad cyflog blynyddol 2026-27</u><br>Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, trafododd ARAC delerau ac amodau staff Adnodd ynghyd â data wedi'u meincnodi am y cydnabyddiaethau anariannol y mae cyrff eraill yn eu cynnig. Trafododd hefyd y rhagdybiaethau cynllunio dros dro a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Rhoddodd ARAC gyngor i EG ar gyfer cynnal proses deg a phriodol wrth adolygu cyflogau.<br><br><u>Cyflog y Prif Weithredwr</u><br>Trafododd ARAC hefyd y cymal yn nhelerau ac amodau cyflogaeth y Prif Weithredwr sy'n datgan y bydd y Bwrdd yn ystyried mecanwaith ar gyfer codiadau cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar ôl 2025. | KD noted that the staff forum had been instrumental in the staff engagement survey work with Effectus HR.<br><br>The forum had been reviewing the suite of human resources policies as they approach their renewal dates, the most recent tranche has now been approved by ARAC.<br><br>The new Annual Leave policy was reviewed by the forum and approved by ARAC in April.<br><br><u>Annual pay award 2026-27</u><br>At its April meeting, ARAC considered the terms and conditions of Adnodd staff along with benchmarked data on non-financial rewards offered by other bodies and the provisional planning assumptions provided by WG for 2026-27. ARAC offered its advice to EG to support a fair and appropriate pay award review process.<br><br><u>Chief Executive pay</u><br>ARAC also discussed the clause within the Chief Executive's terms and conditions of employment which states that the Board will consider a mechanism for performance related pay increases after 2025. |

| | | |
|---|---|---|
| | Argymhellodd ARAC fod Cadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd ARAC a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael trafodaeth gaeedig i drafod a chytuno ar broses ar gyfer penderfynu ar gyflog y Prif Weithredwr. Bydd y grŵp yn gweithio gydag Effectus HR i greu strwythur cyflog arfaethedig i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.<br><br>Nodwyd na fydd EG yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau am y mater hwn.<br><br><u>Cyllid</u><br>Mae Tîm Cyllid Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y terfyn goddefiant o 2% ar gyfer arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu'n benodol yr arian parod sydd yn y banc ar 31 Mawrth yn y flwyddyn dan sylw.<br><br>Dywedodd KD fod yr anfoneb derfynol gan BookTrust £20,000 yn llai na'r disgwyl, sy'n golygu mai £77,545 yw'r amcangyfrif o danwariant yn y gyllideb adnoddau bellach.<br><br>Dywedodd KD y bydd llythyrau grant Llywodraeth Cymru i Adnodd yn y dyfodol yn cynnwys dyraniad ar gyfer cyllideb adnoddau, a hwnnw'n dynodi'r arian y gellir ei neilltuo yn y flwyddyn ariannol. | ARAC recommended that a closed discussion takes place between the Chair of the Board, the Chair of ARAC and the Director of Corporate Services to discuss and agree a process for the Chief Executive's pay. The group will work with Effectus HR to devise a proposed pay structure and present to the Board in July.<br><br>It was noted that EG will not be involved in any discussions on this matter.<br><br><u>Finance</u><br>WG Finance Team have confirmed that the 2% year-end cash tolerance limit refers explicitly to cash in bank on 31 March.<br><br>KD noted that the final invoice from BookTrust was £20,000 less than expected, which brings the estimated underspend on resources budget to £77,545.<br><br>KD noted that future WG grant letters to Adnodd will include a resources budget allocation, identifying the funding that can be committed within the financial year.<br><br><u>Risk Management</u><br>The fraud fisk register will be strengthened following the anti-fraud training session on 7 May. ARAC will complete |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>Rheoli risgiau</u><br>Bydd y gofrestr risgiau twyll yn cael ei chryfhau yn dilyn y sesiwn gwrth-dwyll ar 7 Mai. Bydd ARAC yn cwblhau adolygiad dros dro o'r gofrestr risgiau twyll ym mis Mehefin.<br><br>Mae'r gofrestr risgiau strategol wedi'i diweddaru'n llawn ar ôl cael y llythyr ariannu newydd a'r llythyr cylch gwaith estynedig. Bydd ARAC yn adolygu'r risgiau newydd yn fanwl ym mis Mehefin.<br><br>Cadarnhaodd KD fod dau o'r pedwar asesiad seiberddiogelwch wedi'u cyflawni, gyda thrydydd ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill.<br><br><u>Y polisi rheoli risgiau</u><br>Mae awgrymiadau a wnaeth yr archwilwyr mewnol wedi cael sylw yn y fersiwn ddiwygiedig. Cymeradwyodd ARAC y diwygiadau a awgrymwyd ac argymhellodd fod y Bwrdd yn cymeradwyo'r polisi.<br><br>**Cam gweithredu: Hepgor cyfeiriadau at y broses sefydlu gychwynnol yn y polisi rheoli risgiau diwygiedig.** | an interim review of the refreshed fraud risk register in June.<br><br>The strategic risk register has been fully refreshed following receipt of the new funding letter and extended remit letter. The new risks will be reviewed in detail by ARAC in June.<br><br>KD confirmed that two of the four cybersecurity assessments have been achieved, with a third on track to complete by the end of April.<br><br><u>Risk management policy</u><br>Suggestions made by internal auditors have been incorporated into the revised version. ARAC approved the suggested amendments and recommended the policy for Board approval.<br><br>**Action: Omit references to initial set-up in the reviewed Risk management policy.**<br><br>***Decision: The Board approved the revised Risk management policy subject to the minor amendments suggested.*** |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y polisi rheoli risgiau diwygiedig yn amodol ar y mân ddiwygiadau a awgrymwyd.*** | |
| 10. Adroddiad: Adborth holiadur staff \| Report: Staff questionnaire feedback | Rhoddodd GD groeso i NB i'r cyfarfod.<br><br>Llongyfarchodd NB y tîm ar ganlyniad cadarnhaol yr arolwg, lle cafwyd cyfradd ymateb uchel o 92%. Roedd yr ymatebion i bob cwestiwn yn nodedig o gadarnhaol, gyda phob un yn sgorio dros 4 allan o 5.<br><br>Dangosodd canfyddiadau'r arolwg fod gan Adnodd ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol a bod y berthynas weithio rhwng pobl yn gryf. Mae'r staff yn gwerthfawrogi'n fawr y trefniadau gweithio hyblyg a'r trefniadau llesiant.<br><br>Rhoddodd NB grynodeb o'r meysydd posibl i'w datblygu, a dywedodd eu bod yn ymwneud yn bennaf â ffyrdd o weithio a phrosesau sefydliadol, yn hytrach na diwylliant neu arweinyddiaeth. Nid oes unrhyw risgiau lefel uchel uniongyrchol yn deillio o'r arolwg, ac mae'r risgiau a ganfuwyd yn rhai datblygiadol i raddau helaeth, ac mae modd eu rheoli. | GD welcomed NB to the meeting.<br><br>NB congratulated the team on a positive survey outcome which achieved a high response rate of 92%. Responses to every question were notably positive, with each one scoring over 4 out of 5.<br><br>The survey findings identified a positive organisational culture with strong working relationships. The flexible working and well-being initiatives are highly valued among the staff.<br><br>NB provided an overview of the areas for potential development and noted that they primarily relate to ways of working and organisational processes, rather than culture or leadership. No immediate high-level risks arise from the survey, and identified risks are largely developmental and manageable.<br><br>A full staff team sessions has been arranged in June to share the findings and further develop the next steps. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae sesiynau ar gyfer y tîm llawn o staff wedi'u trefnu ym mis Mehefin i rannu'r canfyddiadau a datblygu'r camau nesaf ymhellach.<br><br>**Cam gweithredu: Rhoi diweddariad am arolwg y staff i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.** | **Action: Provide a staff engagement survey update to the Board in July.** |
| 11. Adolygu polisi mamolaeth cyfredol Adnodd \| Review of Adnodd's current maternity policy | Soniodd KD am y cynnig i roi taliad mamolaeth yn ôl disgresiwn i weithwyr nad ydyn nhw'n gymwys i gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP). Roedd y papur yn rhoi trosolwg o'r ystyriaethau ariannol a'r risgiau posibl.<br><br>Dywedodd KD fod y Tîm Gweithredol yn teimlo y gallai'r newidiadau arfaethedig gael effaith anuniongyrchol gadarnhaol ar y gweithlu ehangach, gan atgyfnerthu hyder yn Adnodd fel cyflogwr teg a chefnogol, a rhoi tystiolaeth o ymrwymiad y sefydliad i'w werthoedd.<br><br>Trafododd ARAC y mater yn ei gyfarfod ym mis Ebrill a phenderfynodd ei fod yn fater i'r Bwrdd.<br><br>***Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd ar y diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Mamolaeth.*** | KD outlined the proposal to provide a discretionary maternity payment to employees who are not eligible for Statutory Maternity Pay (SMP). The paper provided an overview of financial considerations and potential risks.<br><br>KD noted that the Executive Team felt that the proposed changes could have a positive indirect impact on the wider workforce, reinforcing confidence in Adnodd as a fair and supportive employer, evidencing the organisation's commitment to its values.<br><br>ARAC discussed the matter at its April meeting and decided that it was a matter for Board.<br><br>***Decision: The Board agreed to the proposed amendments to the Maternity Policy.*** |

| | | |
|---|---|---|
| 12. Polisïau corfforaethol – Polisi'r Gymraeg a'r Siarter Llesiant \| Corporate policies – Welsh language policy and Well-being Charter | Esboniodd KD fod drafftiau o'r polisïau wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr, ac mae'r holl awgrymiadau bellach wedi cael sylw yn y fersiwn sydd i'w gweld yn y papurau.<br><br><u>Polisi'r Gymraeg</u><br>Wrth greu cynnwys dwyieithog, esboniodd KD fod dull Ysgrifennu Triawd yn cael ei annog drwy holl waith Adnodd.<br><br>**Cam gweithredu: Canfod enghreifftiau a thystiolaeth sy'n dangos manteision Ysgrifennu Triawd.**<br><br><u>Y camau nesaf</u><br>Trafod polisi'r Gymraeg ymhlith y staff a datblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod yr amcanion ar gyfer 2028 yn cael eu cyflawni.<br><br>Awgrymwyd y dylai'r polisi gynnwys darpariaeth ar gyfer cytuno ar eithriadau cyfyngedig mewn amgylchiadau penodol e.e. cyfarfodydd ARAC – yn dibynnu ar aelodaeth y pwyllgor.<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd bolisi'r Gymraeg.***<br><br><u>Y Siarter Llesiant</u> | KD explained that drafts of the policies were presented to Board in January, and all suggestions have now been incorporated into the version provided in the papers.<br><br><u>Welsh language policy</u><br>KD explained that the Trio writing approach to developing bilingual content is encouraged across all aspects of Adnodd's work.<br><br>**Action: Identify examples and evidence that demonstrate the benefits of Trio Writing approach.**<br><br><u>Next steps</u><br>Discuss the Welsh language policy with the staff team and develop an action plan to ensure that the aims for 2028 are realised.<br><br>It was suggested that the policy includes a provision for agreeing limited exceptions in specific circumstances e.g. ARAC meetings – depending on the committee's membership.<br><br>***Decision: The Board approved the Welsh language policy.***<br><br><u>Well-being Charter</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Siarter Llesiant.*** | ***Decision: The Board approved Well-being Charter.*** |
| 13. Y cynllun gweithredol<br><br>Operational plan | Ar ôl gweithdy cynllunio i'r holl staff ym mis Chwefror, a gwaith mireinio gan EG a GD ym mis Mawrth, cytunwyd ar yr amcanion corfforaethol. Mae'r amcanion, y gweithgareddau a'r allbynnau sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun yn ymddangos yn amcanion datblygu aelodau unigol o staff.<br><br>Mae gwaith cynllunio manwl yn mynd rhagddo i greu fersiwn ar Asana (y platfform rheoli gwaith) sy'n canolbwyntio mwy ar dasgau gweithredol. Dywedodd EG fod gweithdy cynllunio ychwanegol i'r holl staff wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai.<br><br>Dywedodd EG fod yn rhaid i swyddogion Llywodraeth Cymru gytuno ar y Cynllun Gweithredol erbyn 30 Mehefin 2026. Bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Gorffennaf.<br><br>**Cam gweithredu: Aelodau'r Bwrdd i gyflwyno unrhyw adborth cyffredinol erbyn dydd Gwener 8 Mai.**<br><br>**Cam gweithredu: Adolygu geiriad yr amcanion.** | The corporate objectives refined and agreed by EG and GD in March, following a two-day, all-staff planning workshop in February. The objectives, activities and outputs described in the plan have been embedded into individual staff members' development objectives.<br><br>Detailed planning is ongoing to create a more operational task-driven version into Asana (a work management platform). EG noted that an additional all-staff planning workshop has been arranged for 20 May.<br><br>EG noted that the Operational Plan must be agreed by WG officials by 30 June 2026. The final plan will be presented to the Board in the July meeting.<br><br>**Action: Board members to submit any general feedback by Friday 8 May.**<br><br>**Action: Review the wording of the objectives.** |
| 14. Cyllideb \| Budget | Cyflwynodd KD y gyllideb ddrafft derfynol i'r Bwrdd. | KD presented the final draft budget to the Board. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ers i'r gyllideb gael ei chyflwyno i ARAC, esboniwyd ei bod wedi'i diwygio i gyfrif am y tanwariant gweithredol sy'n cael ei ddefnyddio i dalu am y secondiad amser llawn.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gael ar gyfer Ton 3 y Cymwysterau Cenedlaethol newydd. Mae cyllid wedi'i ddyrannu yn y gyllideb gomisiynu bresennol ar gyfer y pynciau hyn.<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd Gyllideb 2026-27.*** | It was explained that since the budget was presented to ARAC an amendment had been made to account for the operational underspend being used up to pay for the full-time secondment.<br><br>Additional, in-year funding is unlikely to be made available to support Wave 3 of the new National Qualifications. Funding has been allocated to support these subjects within the current commissioning budget.<br><br>***Decision: The Board approved the 2026-27 Budget.*** |
| 15. Diweddariad y Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol<br><br>Head of Communications and strategic engagement update | Rhoddodd AH grynodeb o'r gwaith cychwynnol ar strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu Adnodd.<br><br><u>Cyfeiriad gweithredol</u><br>Blwyddyn 1 (2026-27) – sefydlu'r gwaith ymgysylltu a chyfathrebu er mwyn rheoli a gweithredu'n fewnol.<br><br>Blwyddyn 2 (2027-28) – datblygu gweledigaeth tymor hwy a chanolbwyntio ar sut rydyn ni'n deall, yn cofnodi ac yn rhoi tystiolaeth o effaith gwaith ymgysylltu a chyfathrebu.<br><br>Mae'r strategaeth yn dangos sut mae gwaith Adnodd yn cyd-fynd â Phum Ffordd o Weithio Comisiynydd | AH provided an overview of the initial work on Adnodd's Engagement and communications strategy.<br><br><u>Operational direction</u><br>Year 1 (2026-27) - establish the engagement and communication function to manage and operationalise internally.<br><br>Year 2 (2027-28) – develop longer term vision and include a focus on how we understand, capture and evidence the impact of engagement and communication activity. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n egwyddorion i'w hystyried wrth ymgysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol. | The strategy demonstrates Adnodd's alignment to the Future Generations Commission's Five Ways of Working, which are principles to consider when engaging with internal and external partners. |
| 16. Unrhyw fusnes arall<br><br>Any other business | Rhoddodd GD wybod am ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi sydd i ddod a dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol. | GD noted the dates of upcoming training sessions and future Board meeting dates. |

Arwyddwyd gan: _______________________________ (Cadeirydd)
Dyddiad:

| **Dyddiad cyfarfod** ***Meeting date*** | **Cyfeirnod** **Reference** | **Pwynt gweithredu** ***Action*** | **Erbyn** ***By*** | **Cyfrifol** ***Responsible*** | **Statws** ***Status*** |
|---|---|---|---|---|---|
| 03.04.25 | 1 | Ymwneud â grwpiau sydd â diddordebau arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. grwpiau'r Cwricwlwm i Gymru a phenaethiaid. \| To engage with special interest groups on social media e.g. Curriculum for Wales and headteacher groups. | Ebrill \| April 2026 | AH | Yn mynd rhagddo \| Ongoing |
| 22.10.25 | 2 | Aelodau'r Bwrdd y mae eu contractau'n cael eu hymestyn am dair blynedd i ystyried gwirfoddoli i fod yn aelodau o ARAC. \| Board members' whose contracts are being extended by three years to consider volunteering for ARAC membership. | Mai \| May 2026 | Y Bwrdd \| Board | Wedi'i gwblhau \| Completed |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 22.10.25 | 3 | Ystyried sgiliau penodol ar gyfer ARAC yn ystod y broses o recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd. \| Consider specific ARAC skills during the recruitment process for new Board members. | Medi \| September 2026 | Y Tîm Gweithredol/Y Tîm Partneriaeth \| Exec/Partnership Team | Yn mynd rhagddo \| Ongoing |
| 28.04.26 | 4 | Cyflwyno canfyddiadau'r gwaith mapio effaith crychdonnau i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf. \| Present the findings of the ripple effect mapping to the Board. | Gorffennaf \| July 2026 | AH | Wedi'i drefnu \| Scheduled |
| 28.04.26 | 5 | Cyflwyno diweddariad am y Fframwaith Sicrhau Ansawdd i'r Bwrdd. \| Present a QAF update to the Board. | Gorffennaf \| July 2026 | LIS | Wedi'i drefnu \| Scheduled |
| 28.04.26 | 6 | Hepgor cyfeiriadau at y broses sefydlu gychwynnol yn y polisi rheoli risgiau diwygiedig. \| Omit references to initial set up in the reviewed Risk management policy. | Mai \| May 2026 | KD | Wedi'i gwblhau \| Completed |
| 28.04.26 | 7 | Rhoi diweddariad am arolwg y staff i'r Bwrdd. \| Provide a staff engagement survey update to the Board. | Tachwedd \| November 2026 | Y Tîm Gweithredol/Executive Team | |
| 28.04.26 | 8 | Gofyn am dystiolaeth sy'n dangos manteision Ysgrifennu Triawd. \| Request evidence regarding the benefits of Trio Writing approach. | Tachwedd \| November 2026 | KD | |
| 28.04.26 | 9 | Aelodau'r Bwrdd i gyflwyno unrhyw adborth cyffredinol erbyn dydd Gwener 8 Mai. \| Board members to submit any general feedback by Friday 8 May. | Mai \| May 2026 | Board | Wedi'i gwblhau \| Completed |
| 28.04.26 | 10 | Adolygu geiriad yr amcanion. \| Review the wording of the objectives. | Gorffennaf \| July 2026 | Y Tîm Gweithredol/Executive Team | Wedi'i gwblhau \| Completed |